# Y Trefniadau Amddiffyn Rhyddid

## Yr hyn mae'r gyfraith yn ei ddweud am ofal neu driniaeth os bydd yn cymryd hawliau pobl i ffwrdd



**Llyfryn hawdd ei ddarllen**

# Yr hyn mae'r llyfryn hwn yn ei ddweud wrthych am



Mae angen cymorth ar rai pobl i wneud penderfyniadau am eu bywydau oherwydd eu bod **â phrinder gallu**.



**Mae prinder gallu** yn golygu efallai na fyddent yn gallu gwneud penderfyniad am eu bywydau ar yr adeg pan fo angen gwneud y penderfyniad.





Mae Deddf Galluedd Meddyliol 2005 yn **gyfraith** yn y DU. Mae'n dweud beth sy'n digwydd pan fydd pobl a phrinder gallu.





Mae **cyfraith** yn rheol sy'n diogelu pobl ac yn sicrhau bod pawb yn cael eu trin mewn ffordd dda a theg. Mae Deddf Galluedd Meddyliol 2005 yn cael ei galw yn y**Ddeddf** yn fyr yn y llyfryn hwn.



Pan fydd angen rhoi gofal neu driniaeth i unigolyn sydd a phrinder gallu, weithiau byddant yn colli rhywfaint o'i ryddid.



Pan fydd hyn yn digwydd mae system yng Nghymru a Lloegr mae'r Ddeddf yn dweud bod yn rhaid ei dilyn. Fe'i gelwir yn y **Trefniadau Amddiffyn Rhyddid** neu **LPS** yn fyr.




Mae'r Ddeddf yn dweud **bod yn rhaid i God Ymarfer** gael ei ysgrifennu.




Llyfr yw **Cod Ymarfer** sydd â gwybodaeth ddefnyddiol am y gyfraith. Mae'n **ganllaw** sy'n golygu y dylai gael ei ddarllen a'i ddilyn ond nid yw'n gyfraith.




Mae'r llyfryn hwn yn grynodeb **Hawdd ei Ddarllen** o'r Cod Ymarfer ar gyfer LPS. Mae **crynodeb** yn golygu fersiwn fyrrach.

# Amddifadu o ryddid




**Hawliau a rhyddid** yw hawliau dynol sylfaenol y dylai fod gan bob unigolyn trwy gydol eu bywyd, megis tegwch a gallu dewis gwneud y pethau maent yn dymuno.



Amddifadu **o ryddid** yw pan fydd rhywun yn colli rhai o'u hawliau a rhyddid.




Mae amddifadu o ryddid yn digwydd pan

- nad yw rhywun yn gallu gadael y lle y mae ynddo.
- nad yw rhywun yn gallu dewis sut i dreulio'i amser ac nad yw'n cael ei adael ar ei ben ei hun am rannau hir o'r diwrnod.
- nad yw'r unigolyn wedi rhoi **cydsyniad** i gael ei gadw yn y lle hwnnw. **Cydsyniad** yw pan fyddwch yn cydsynio'n swyddogol i wneud rhywbeth.
- mae'r llywodraeth neu'r system gyfreithiol yn y wlad wedi'u rhoi yn y lle hwnnw.



# Proses yr LPS



Mae'n rhaid dilyn proses yr LPS os

- bydd angen gofal neu driniaeth ar rywun, a'u
- bod â phrinder gallu, a
- gall y cynllun gofal neu driniaeth olygu amddifadu o ryddid.



Mae'r Ddeddf yn diogelu pobl sydd â phrinder gallu. Mae gan bawb hawl i

- gael rhywun sy'n gallu eu helpu trwy broses yr LPS.
- asesiadau teg.
  **Asesiadau** yw gwiriadau i ddysgu am eu hanghenon.
- gofyn i **Lys** helpu i wneud penderfyniad os na fyddant yn cael eu trin yn deg. Mae **Llys** yn lle swyddogol lle mae penderfyniadau'n gallu cael eu gwneud ar gyfer pobl sydd â phrinder gallu.
- cael gwirio penderfyniadau LPS i sicrhau bod eu hangen o hyd.






Os bydd sefydliad yn  meddwl bod angen amddifadu o ryddid, bydd yn cychwyn proses yr LPS. Gelwir y sefydliad hwn yn **Gorff Cyfrifol**.



Mae'n rhaid i'r Corff Cyfrifol

- wirio bod angen proses yr LPS.
- gwirio mai nhw yw'r sefydliad cywir i fod y Corff Cyfrifol.



- dewis rhywun fydd yn helpu ac yn siarad dros yr unigolyn sydd â phrinder gallu. Yr unigolyn hwn fydd yr **Unigolyn Priodol** neu'r **Eiriolwr Galluedd Meddyliol Annibynnol** ( a elwir yn **IMCA** yn fyr).



Mae'n rhaid i'r Corff Cyfrifol ddilyn proses yr LPS. Mae proses yr LPS yn cynnwys




- **Asesiadau** ar gyfer gallu, anghenion iechyd a dewisiadau teg.
- **Siarad â** phawb sy'n cymryd rhan.
- **Penderfynu a yw'r** amddifadu o ryddid yn gallu digwydd.



- **Gwirio** a oes angen yr amddifadu o ryddid o hyd. Bydd pa mor aml y bydd hyn yn digwydd yn wahanol i bob unigolyn.
- **Adnewyddu'r** LPS os bydd ei angen o hyd. **Mae adnewyddu'n** golygu gwneud iddo barhau'n hirach.

# Y Corff Cyfrifol



Mae'n rhaid i'r Corff Cyfrifol benderfynu a ddylai **trefniadau penodol** ddigwydd. Y **trefniadau hyn** yw'r rhan o ofal a thriniaeth unigolyn sy'n creu'r amddifadu o ryddid.



Mae'r Ddeddf yn dweud pa sefydliad fydd y Corff Cyfrifol. Mae'n dibynnu ar bethau megis lle bydd y trefniadau amddifadu o ryddid yn digwydd.



Mae'n rhaid i'r Corff Cyfrifol

- geisio bob tro i atal amddifadu o ryddid trwy ddod o hyd i gynllun gwell.
- sicrhau bod yr asesiadau'n digwydd.
- penderfynu a ddylai'r trefniadau ddigwydd neu beidio.
- penderfynu pryd y dylai'r trefniadau ddod i ben neu bryd y dylent barhau'n hirach.
- rhoi gwybodaeth benodol am yr LPS.



# Helpu pobl i wneud eu penderfyniadau eu hunain



Mae'r Ddeddf yn dweud bod yn rhaid rhoi'r cyfle i bobl wneud eu penderfyniadau eu hunain os gallant.



I helpu rhywun i wneud eu penderfyniad eu hun mae'r Ddeddf yn dweud bod yn rhaid i bobl wirio os

- oes ganddynt yr holl wybodaeth.
- oes ganddynt wybodaeth am unrhyw ddewisiadau eraill.
- gallai unrhyw un arall megis eu teulu eu helpu i ddeall.
- gallai'r wybodaeth gael ei rhoi mewn ffordd wahanol megis mewn lluniau.
- byddent yn fwy cyfforddus mewn lle gwahanol neu ar amser gwahanol.
- gallech aros tan adeg ddiweddarach pan y gallai fod yn haws.






Mae llawer o benderfyniadau i'w gwneud ym mhroses yr LPS. Dylai pobl helpu'r unigolyn i fod yn rhan o bob un ohonynt cyn belled â phosibl.

# Y Person Priodol



Bydd y Person Priodol yn helpu ac yn siarad ar ran yr unigolyn sydd â phrinder gallu. Maent yn ofalwr yn aml,
yn ffrind, neu rywun yn y teulu.

Dylai'r Person Priodol



- adnabod yr unigolyn yn dda.
- gwybod sut i siarad ag ef/hi mewn ffordd glir.
- bod yn 16 oed neu'n hŷn.
- gallu cadw mewn cysylltiad â'r unigolyn.
- peidio a bod ag unrhyw gysylltiad â'r arian a delir am ofal neu driniaeth.



- peidio â gweithio i unrhyw gwmni neu sefydliad fydd yn rhoi'r gofal neu driniaeth.
- peidio â gweithio i'r sefydliad sy'n Gorff Cyfrifol.
- cytuno i fod y Person Priodol.




Os nad oes unrhyw un sy'n gallu bod yn Berson Priodol, gall IMCA gael ei ddewis yn hytrach.



Mae angen i'r Person Priodol

- ddeall proses yr LPS.
- sicrhau bod yr unigolyn sydd â phrinder gallu yng nghanol y broses.
- siaradi ar ran yr unigolyn.
- eu helpu trwy'r broses.
- sicrhau eu bod yn cael eu cynnwys pryd bynnag y bo'n bosibl.
- deall eu hawliau.
- gwybod beth sydd ei eisiau arnynt a dweud os byddant yn newid eu meddwl.





Bydd llawer o gyfarfodydd. Bydd y Person Priodol yn helpu ac yn siarad ar ran yr unigolyn sydd â phrindergallu.



Dylai'r Person Priodol gael

- unrhyw sydd ei angen arnynt gan y Corff Cyfrifol.
- gwybodaeth am broses yr LPS.
- pob gwybodaeth newydd am yr **achos**. Mae'r **achos** yn golygu proses yr LPS ar gyfer yr unigolyn hwn.



# Yr Eiriolwr Galluedd Meddyliol Annibynnol neu IMCA



Os nad oes Person Priodol i helpu a siarad ar ran yr unigolyn sydd â phrinder gallu, gall IMCA yn hytrach gael ei ddewis.



Weithiau mae IMCA yn cael ei ddewis i helpu Person Priodol.



Gwaith yr IMCA yw i

- sicrhau bod yr unigolyn yn cael ei drin yn y ffordd gywir.
- sicrhau bod pawb yn deall yr hyn mae'r unigolyn yn ei ddymuno a sut mae'n teimlo.




Mae'n rhaid bod gan yr IMCA yr hyfforddiant a'r profiad cywir sydd eu hangen yn ôl y gyfraith.

Mae'n rhaid i'r IMCA



- helpu a siarad ar ran pobl sydd heb neb arall i'w helpu.
- dod o  hyd i'r ffordd orau i siarad â'r unigolyn.



- helpu Person Priodol os gofynnir iddynt wneud.



- bod  â'r holl wybodaeth am y trefniadau a'r broses.
- dod, i adnabod yr unigolyn a'u trefniadau gofal neu driniaeth.



- helpu'r unigolyn i wneud eu penderfyniadau eu hunain os byddant yn gallu.
- rhoi gwybodaeth i'r bobl sy'n gwneud yr asesiadau.




- cael ei holi bob amser am yr hyn mae'r unigolyn yn ei ddymuno a sut maent yn teimlo.
- gofyn i'r Llys benderfynu, neu fynd  i'r Llys.


# Asesiadau a phenderfyniadau




Bydd 3 asesiad a phenderfyniad **ar wahân** i benderfynu a yw'r trefniadau amddifadu o ryddid yn gallu digwydd. **Mae dyfarniadau'n** golygu penderfyniadau.




1. **Gallu**
   Bydd yr asesiad hwn yn canfod os yw'r unigolyn â phrinder gallu i gytuno â'r trefniadau.



2. **Meddygol**
   Bydd yr asesiad hwn yn canfod a oes gan yr unigolyn **anhwylder meddyliol**.
   Mae **anhwylder meddyliol** yn unrhyw broblem neu anabledd o'r meddwl sy'n effeithio ar sut rydych yn meddwl ac ymddwyn.



3. **Dewisiadau teg**
   Bydd yr asesiad hwn yn canfod a oes angen y trefniadau i gadw'r unigolyn yn ddiogel, yn deg, a'u bod yn ddewis gorau ar gyfer eu bywyd.




Mae rheolau ynglŷn â phwy sy'n gallu gwneud pob un o'r asesiadau.



Bydd y bobl sy'n gwneud yr asesiadau fel arfer yn gwneud dyfarniad ar gyfer pob asesiad.




Os bydd y dyfarniadau ar gyfer pob un o'r 3 asesiad yn bodloni'r rheolau, gall y Corff Cyfrifol wneud y penderfyniad terfynol a yw'r trefniadau yn gallu digwydd.




Weithiau mae asesiadau tebyg wedi cael eu gwneud yn barod am resymau eraill. Gallai fod yn bosibl defnyddio'r asesiadau hyn ar gyfer LPS fel na fydd rhaid eu gwneud eto.




Os bydd unrhyw beth yn newid, mae'n rhaid i'r Corff Cyfrifol wneud rhai gwiriadau neu asesiadau newydd.

# Siarad â phawb sy'n cymryd rhan



Dylai'runigolyn sydd â phrinder gallu fod yng nghanol proses yr LPS.



I wybod am yr hyn maent yn ei ddymuno a sut maent yn teimlo, mae'n rhaid i'r Corff Cyfrifol siarad

- â'r unigolyn.
- unrhyw un mae'r unigolyn yn dymuno iddynt siarad â nhw.
- unrhyw un sy'n gofalu am yr unigolyn neu sydd â diddordeb yn eu llesiant.



- rhywun sy'n **Atwrneiaeth Arhosol** neu'n **Atwrneiaeth Barhaus** i'r unigolyn. Mae'r rhain yn rolau cyfreithiol i ganiatáu i rywun arall wneud penderfyniadau am fywyd yr unigolyn.




- **dirprwyon**. **Mae dirprwyon** yn bobl a ddewisir gan y Llys i wneud penderfyniadau ar ran pobl sydd â phrinder gallu.
- y Person Priodol.
- yr IMCA.



Dylai'r Corff Cyfrifol feddwl am y ffordd orau i siarad â'r unigolyn i sicrhau eu bod yn gallu canfod yr hyn maent yn ei ddymuno a sut maent yn teimlo.



Bydd pob cyfarfod â'r unigolyn yn cael ei gofnodi neu nodiadau'n cael eu hysgrifennu.



Bydd hyn yn helpu'r Corff Cyfrifol i feddwl am yr hyn mae'r unigolyn yn ei ddymuno a sut mae'r unigolyn yn teimlo pan fyddant yn gwneud eu penderfyniad.

# Gweithiwr Proffesiynol Galluedd Meddyliol Cymeradwy neu AMCP



Weithiau bydd y Corff Cyfrifol yn gofyn i **AMCPau** helpu gyda'u penderfyniadau. **Mae AMCPau** neu **Weithwyr Proffesiynol Galluedd Meddyliol Cymeradwy** yn bobl o swyddi proffesiynol sy'n deall Galluedd Meddyliol.



Gallai AMCPau fod yn nyrsys neu weithwyr cymdeithasol. Mae ganddynt hyfforddiant arbennig ac yn cael eu rhoi ar restr o AMCPau.



Fel arfer bydd yr AMCPau yn cyfarfod â'r unigolyn ac yn siarad â phawb sy'n cymryd rhan. Byddant yn gwneud penderfyniad am a yw'r rheolau wedi'u bodloni ar gyfer yr amddifadu o ryddid.



Os bydd yr unigolyn sydd â phrinder gallu mewn lle nad yw'n dymuno bod ynddo, bydd yr AMCPau yn penderfynu a yw'r rheolau wedi'u bodloni ar gyfer yr amddifadu o ryddid.

# Adnewyddiadau




Pan fydd dyddiad diwedd y trefniadau'n dod yn agos, mae'n rhaid i'r Corff Cyfrifol feddwl am yr hyn ddylai ddigwydd nesaf.



Os nad oes newidiadau wedi bod a bod y trefniadau'n gweithio'n dda, gallant gael eu hadnewyddu. Mae hyn yn golygu y byddant yn parhau'n hirach.




Gallai fod yn bosibl newid y trefniadau a'u hadnewyddu.
Weithiau bydd angen asesiadau.




Gall yr adnewyddiad cyntaf fod am 1 flwyddyn. Wedi hynny gall unrhyw adnewyddiadau ychwanegol fod am 3 blynedd.

# Triniaeth Cynnal Bywyd neu Weithredoedd Hanfodol



Weithiau bydd angen i benderfyniad am amddifadu o ryddid ddigwydd yn gyflym iawn. Mae rhan o'r Ddeddf a elwir yn **adran 4B** yn caniatáu i bobl wneud penderfyniadau am **driniaeth cynnal bywyd** neu **weithredoedd hanfodol**.



**Mae triniaeth cynnal bywyd** yn golygu unrhyw driniaeth feddygol sydd ei hangen i gadw rhywun yn fyw.



**Mae gweithredoedd hanfodol** yn golygu unrhyw beth sydd angen ei wneud i atal iechyd rhywun rhag gwaethygu llawer neu i gadw'r unigolyn yn ddiogel. Mae'n rhaid iddo fod yn deg a'r dewis gorau.



Gall adran 4B gael ei defnyddio yn unig ar gyfer triniaethcynnal bywyd neu weithredoedd hanfodol os bydd yr unigolyn a phrinder gallu. Gellir ei ddefnyddio mewn argyfyngau neu os yw Llys neu Gorff Cyfrifol yn meddwl am drefniadau'n barod ar gyfer yr unigolyn.

# Plant a phobl ifanc




Yn y llyfryn hwn mae plant yn golygu pobl sydd o dan 16 oed, a phobl ifanc yn golygu pobl sy'n 16 neu 17 oed.




Mae proses yr LPS a'r Ddeddf yn gallu cael eu defnyddio ar gyfer pobl ifanc.



I ddeall a oes gan unigolyn ifanc amddifadu o ryddid gallwch ei gymharu â rhywun arall sydd yr un oed nad oes ganddo/ganddi anhwylder meddyliol.




Os oes gan unigolyn ifanc Gynllun, Addysg, Iechyd a Gofal neu Gynllun Datblygu Unigol, neu'n blentyn sy'n derbyn gofal, y sefydliad a ysgrifennodd y cynllun hwnnw fydd y Corff Cyfrifol.
Gall rhiant weithiau fod yn Berson Priodol.

# Deddf Iechyd Meddwl 1983




Yn y llyfryn hwn rydym wedi siarad am y **Ddeddf** sef Deddf Galluedd Meddyliol 2005. Mae'n ddeddf yng Nghymru a Lloegr sy'n dweud beth sy'n digwydd pan fydd pobl â phrinder gallu. Mae proses yr LPS yn rhan o'r Ddeddf hon.




Mae cyfraith arall yng Nghymru a Lloegr a elwir Deddf Iechyd Meddwl 1983 neu'r **MHA**. Mae'r ddeddf hon yn dweud beth sy'n digwydd i bobl â phroblemau iechyd meddwl a phan gellir eu cadw mewn lle nad ydynt yn dymuno bod.




Mae gorgyffwrdd rhwng y deddfau hyn. Mae hyn yn golygu y bydd adegau pan fydd angen defnyddio'r ddwy ddeddf.




Mae'n bwysig i rywun sy'n gwybod am y gyfraith wirio pa ddeddfau y gellir eu defnyddio.

# Os byddwch yn anghytuno â'r trefniadau



Weithiau bydd pobl yn poeni am y trefniadau amddifadu o ryddid. Gallwch siarad bob amser am eich pryderon ym mhroses yr LPS.



Osbyddwch yn anhapus gyda'r trefniadau gallwch gwyno.




Mae'r unigolyn sydd â phrinder gallu, Person Priodol neu IMCA yn gallu cwyno bob amser am y trefniadau. Gallant ofyn i Lys helpu i wneud penderfyniad.




Mae'n rhaid i'r Corff Cyfrifol sicrhau bod yr unigolyn sydd â phrinder gallu'n gallu cwyno os byddant yn dymuno. Mae'r Llys yn gallu penderfynu newid y trefniadau.

# Y Llys Gwarchod




Y **Llys Gwarchod** yw enw swyddogol y Llys sy'n gallu gwirio os yw penderfyniad ynghylch amddifadu o ryddid yn gywir.



Byddant yn meddwl am

- y trefniadau ac am faint y byddant yn parhau.
- a yw'r rheolau  wedi cael eu dilyn yn gywir.
- pam y gwnaeth y Corff Cyfrifol ei benderfyniad.




Mae'r Llys yn gallu penderfynu newid neu atal y trefniadau.




Dylai'r unigolyn sydd â phrinder gallu neu'r Person Priodol gael rhywfaint o arian i dalu am gymorth yn y Llys gan rywun sy'n gwybod am y gyfraith.

# Monitro ac adrodd




Mae'n rhaid i'r gyfraith gael ei dilyn os byddamddifadu o ryddid yn digwydd. Mae sefydliadau fydd yn gwirio bod y gyfraith yn cael ei dilyn.



Y sefydiadau yn Lloegr yw y **Comisiwn Ansawdd Gofal** a'r **Swyddfa ar gyfer Safonau mewn Addysg, Gwasanaethau Plant a Sgiliau**.



Y sefydliadau yng Nghymru yw Arolygiaeth **Iechyd Cymru** , **Arolygiaeth Gofal Cymru** a'r **Arolygiaeth Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru, Estyn**.



Mae'n rhaid i'r sefydliadau hyn sicrhau bod proses yr LPS yn cael ei defnyddio'n gywir.
Mae'n rhaid i'r Corff Cyfrifol bob amser ddweud wrth y sefydliadau hyn am broses a phenderfyniadau'r LPS.



Gallai'r sefydliadau hyn

- ymweld â'r fan lle bydd y gofal neu driniaeth yn digwydd.
- fod ag angen gweld yr holl wybodaeth.
- cyfarfod â'r unigolyn sydd â phrinder  gallu a'u gofalwyr.